# Urdd Gobaith Cymru - Ymateb i ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

## Cefndir a gwaith Urdd Gobaith Cymru

Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru yn 1922. Nod Urdd Gobaith Cymru yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas, gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Heddiw mae gan yr Urdd 54,000 o aelodau oed 8-25 ac yn darparu ystod eang o ddarpariaeth o fewn ysgolion, y gymuned, canolfannau preswyl a theithiau tramor.

I gyflawni ei amcanion mae Urdd Gobaith Cymru yn cyflogi dros 250 o staff, sydd wedi eu trefnu ar draws 8 adran gan gydweithio gyda dros 10,000 o wirfoddolwyr.

### Ein hymateb

Diolchwn am y cyfle i ymateb i'r ymchwiliad, mae gan Urdd Gobaith Cymru hanes hir mewn datblygiad addysg Gymraeg yng Nghymru. Wrth barhau i gydweithio, trafod a chreu cynlluniau creadigol, heriol a chyffroes, medrwn gyda'n gilydd gynyddu defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth fel eu bod yn gwerthfawrogi gwerth y Gymraeg yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Mae Urdd Gobaith Cymru, sydd yn fudiad ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru,yn cael ei grybwyll bron ymhob un o'r *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg* y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae yn gadarnhaol bod yr awdurdodau lleol yn cydnabod cyfraniad Urdd Gobaith Cymru at gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc o bob oed i ymarfer eu Cymraeg tu allan i'r dosbarth (o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg.) O fewn bron bob cynllun, rhoddir cryn sylw at gyfraniad profiadau preswyl yr Urdd, eisteddfodau'r Urdd, clybiau chwaraeon yr Urdd a chlybiau'r Urdd o fewn yr ysgol. Gwerthfawrogwn ymrwymiad a gwaith yr athrawon o fewn yr ysgolion a llu o wirfoddolwyr cymunedol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y cyfleoedd yma.

Ond mae lle i wella.

Digwydda'r uchod yn bennaf trwy fanteisio ar yr hyn mae'r Urdd yn ei gynnig yn lleol, a chredwn bod cyfle yn cael ei golli i gyd-gynllunio a chyd-drafod er mwyn asesu'r anghenion a'r adnoddau sydd eu hangen o fewn siroedd penodol. Bydd hyn yn diogelu bod gan y ddarpariaeth yr adnoddau digonol i ateb yr anghenion a'r amcanion strategol. Credwn bod angen ystyried cynnal trafodaethau hyn ar lefel

consortiwm addysg ranbarthol neu yn genedlaethol a byddem yn croesawu y cyfle i wneud hyn yn y dyfodol.

Nid yw'r Urdd, fel corff cenedlaethol strategol sydd yn darparu yn lleol cyfleoedd i gynyddu'r defnydd y Gymraeg tu allan i'r dosbarth, yn cyfrannu yn 'swyddogol' a chyson i *Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg* yr awdurdodau lleol. Mae lle i wella ar hyn, trwy ofyn i'r Urdd am sylwadau, ac i'r Urdd sicrhau ei fod yn darparu sylwadau ym mhob achos.

Mae rhai enghreifftiau o arfer dda o fewn y *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg*, lle defnyddir arbenigedd yr Urdd er enghraifft yng Ngheredigion a Chasnewydd ymysg rhai. Ond nid yw yn fodel cynaliadwy, gan nad yw'r cyllid mewn lle i'w barhau ac i'w ledaenu i siroedd eraill. Mewn sawl awdurdod lleol, bydd rhaid diddymu'r cyfleoedd i bobl ifanc yn fuan oherwydd diffyg adnoddau.

Wrth gynnal trafodaethau mwy ffurfiol gyda'r Urdd, gall yr awdurdodau lleol, ystyried a chydnabod cyfraniad profiad a phrosiectau penodol yr Urdd. Dyma rhai o'r prosiectau (oed pontio 11 oed hyd at 19 oed) sydd yn medru cyfrannu at gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth a hyrwyddo gwerth economaidd y Gymraeg fel sgil Economaidd:- 'Gweithio'n Gymraeg', Llwyddo'n Gymraeg' 'Prosiect Ail Iaith', Gweithgareddau i ddarparu gwaith ieuenctid ac addysg anffurfiol a heb fod yn ffurfiol, Gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg trwy grant Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn defnyddio dulliau i fesur effaith y ddarpariaeth ar ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg a'u dyheadau at y dyfodol. Yn ychwanegol mae'r prosiectau yn cyplysu'r defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth a gwerth economaidd y Gymraeg yn y farchnad llafur. Maent yn cyfrannu at gynlluniau mynd i'r afael a thlodi Llywodraeth Cymru, ond nid yw'r adnoddau ariannol yn caniatâi iddynt fodoli ym mhob awdurdod lleol. Dymuna Urdd Gobaith Cymru ehangu y ddarpariaeth yma yn genedlaethol ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010)yn nodi'r amcanion strategol canlynol:

> AS6.2 - sydd yn pwysleisio ar gyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol o fewn lleoliadau addysg
>
> A6.3 – sydd yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y gymuned

Nodir taw bwriad y cynlluniau strategol yw amlinelli sut bydd awdurdodau lleol yn bwriadau cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r amcanion strategol uchod yn cael eu cynnwys o fewn *Cynllun Strategol Cymraeg o fewn Addysg* yr awdurdodau lleol hyd y gwelwn ni nac yn cael eu cyplysu a thargedau pendant.

Yn ychwanegol mae angen i'r cynlluniau strategol adlewyrchu'r strategaethau canlynol:-

- Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) – a'r 'Gwarant Ieuenctid'
- Strategaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2014 – 2018) a rôl gwaith ieuenctid o fewn ysgolion i ddatblygu a chefnogi pobl ifanc
- Effaith y Gymraeg ar bolisïau gwrth dlodi llywodraeth Cymru a sut mae sgiliau dwyieithog yn cynnal cyflogaeth i bobl ifanc a'u codi allan o dlodi.

Diolch yn fawr iawn am y cyfle i ymateb.